


Ffurflen Tystysgrif Geni neu Fabwysiadu



Eich manylion

Cyfeirnod Cwsmer

Enw llawn

Dyddiad geni

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

Am y ffurflen hon

Bydd angen i chi llenwi'r ffurflen hon os ydych yn gwneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig **ond** na allwch ddarparu manylion o basbort y DU dilys.

Sut i llenwi'r ffurflen hon

Dylech **chi** llenwi Adran 1.

Bydd angen i chi drefnu bod **rhywun arall yn llenwi** Adran 2 i gadarnhau'r wybodaeth a ddarparwyd gennych. Darllenwch yr wybodaeth yn y blwch isod i weld pwy sy'n gallu llenwi Adran 2 ar eich cyfer.

Dylech **chi** llenwi Adran 3 i gadarnhau'ch bod wedi llenwi'r ffurflen a chynnwys yr holl ddogfennau ategol y mae angen i ni eu cael.

Dylech **ddychwelyd** eich ffurflen wedi'i llenwi gyda'ch tystysgrif geni neu fabwysiadu **wreiddiol**. Ni ddylech anfon llungopi atom – ni fydd modd i ni ei derbyn oni bai mai hon yw'r un wreiddiol.

Os yw'ch enw wedi newid o'r un a nodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu, bydd angen i chi anfon un o'r canlynol atom hefyd:

- eich gweithred newid enw; neu'ch
- tystysgrif briodas neu'ch dogfennaeth partneriaeth sifil; neu'ch
- tystysgrif ysgaru neu'ch gorchymyn diddymu.

Pwy sy'n gallu llenwi Adran 2 ar eich rhan?

Rhaid i Adran 2 y ffurflen hon gael ei llenwi gan rywun:

- sy'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio, er enghraifft; athro, gwas sifil neu heddwes; **ac**
- sydd wedi'ch adnabod chi ers o leiaf dwy flynedd; **ac**
- sy'n byw yn y DU; **ac**
- sy'n meddu ar basbort Prydeinig dilys.

Ni ddylai:

- fod yn byw yn yr un cyfeiriad â chi; **neu**
- fod yn perthyn i chi trwy enedigaeth neu briodas/partneriaeth sifil; **neu fod**
- yn bartner i chi.

Os nad ydych yn siŵr a ydych chi'n adnabod rhywun sy'n bodloni'r meini prawf uchod ac os hoffech drafod eich dewisiadau, ffoniwch ni ar **0300 100 0494**.



Adran 1 I'w llenwi gan y myfyriwr

1.1 Eich manylion

Dyddiad Geni

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

Man geni fel y nodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu

1.2 Beth ydych yn ei anfon?

- Fy nhystysgrif geni wreiddiol
- Fy nhystysgrif fabwysiadu wreiddiol

1.3 Nodwch y cyfeirnod ar eich tystysgrif.

Nawr darllenwch, llofnodwch a dyddiwch y datganiad isod.

Datganiad y myfyriwr

• Rydw i'n cynnwys fy nhystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol y DU fel cadarnhad o'm manylion personol.

Llofnod y myfyriwr (mewn inc)

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

Nawr dylech roi'r ffurflen hon i rywun sy'n bodloni'r meini prawf a nodwyd ar dudalen 1 y ffurflen hon.

Bydd angen llenwi Adran 2 yn llawn, gan gynnwys ei ddatganiad ar dudalen 4, yna rhoi'r ffurflen yn ôl i chi er mwyn i chi ei dychwelyd atom.

Adran 2 I'w llenwi gan yr unigolyn sy'n cadarnhau hunaniaeth y myfyriwr

Gwybodaeth ar gyfer yr unigolyn sy'n cadarnhau hunaniaeth y myfyriwr

Darllenwch 'Pwy sy'n gallu llenwi Adran 2 y ffurflen hon ar eich cyfer?' ar dudalen 1, a gwnewch yn siŵr eich bod yn bodloni'r meini prawf – os nad ydych, ni ddylech lenwi Adran 2 y ffurflen hon.

Os ydych yn bodloni'r meini prawf – dylech lenwi gweddill y ffurflen hon a chofio darllen, llofnodi a dyddio'r datganiad ar y dudalen nesaf.

Defnyddir yr wybodaeth a ddarparir gennych yn y ffurflen hon i gadarnhau hunaniaeth yr ymgeisydd ac i bennu a yw'n gymwys i gael cyllid i fyfyrwr.

Pwy fydd yn defnyddio'r wybodaeth hon?

Mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â chyllid i fyfyrwr i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC).

SLC fydd rheolwr data'r wybodaeth a ddarparir gennych yn y ffurflen hon. Llywodraeth Cymru yw rheolwr data yr wybodaeth hon hefyd, gan ei bod yn gyfrifol amdani yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, os hoffech weld eich gwybodaeth, cysylltwch ag SLC.

Efallai y bydd SLC yn cysylltu â chi, eich cyflogwr neu Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi er mwyn dilysu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn y ffurflen hon. Bydd angen i SLC gadw'ch gwybodaeth i archwilio'u hasesiad o gymhwysra'r myfyriwr i gael cyllid i fyfyrwr.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i SLC ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus y maent yn eu trin, ac fe allent ddefnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu er mwyn atal a darganfod twyll. Yn ogystal, efallai y byddant yn rhannu'r wybodaeth hon at yr un dibenion gydag adrannau eraill y llywodraeth sy'n trin cronfeydd cyhoeddus.

2.1 Eich manylion

Teitl

Enw(au) cyntaf

Cyfenw/enw teuluol

Adran 2 I'w llenwi gan yr unigolyn sy'n cadarnhau hunaniaeth y myfyriwr

2.2 Gwybodaeth am eich cyflogaeth

Galwedigaeth

Rhif eich pasbort

Enw'ch cyflogwr/cwmni

Cyfeiriad gwaith

Cod post

Rhif ffôn yn y gwaith

2.3 Am ba mor hir yr ydych chi wedi adnabod y myfyriwr a enwir yn Adran 1?

blwyddyn(blynyddoedd)

Datganiad

Bydd angen i chi ddarllen yr wybodaeth ganlynol, yna llofnodi a dyddio isod. Trwy gwblhau'r datganiad hwn, rydw i'n cadarnhau:

- Nad wyf yn byw yn yr un cyfeiriad â'r myfyriwr;
- Fy mod wedi adnabod y myfyriwr am o leiaf 2 flynedd;
- Fy mod yn dal pasbort Prydeinig;
- Nad ydw i'n perthyn i'r myfyriwr trwy enedigaeth, priodas na phartneriaeth sifil;
- Nad ydw i mewn perthynas bersonol â'r myfyriwr (er enghraifft, nid yw'n bartner i mi);
- bod y myfyriwr a enwir yn Adran 1 y ffurflen hon yr un person â'r un a enwir ar y dystysgrif geni neu fabwysiadu y DU atodedig; a
- hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn gywir ac yn gyflawn. Os nad yw, deallaf y gallai cymorth ariannol y myfyriwr gael ei dynnu'n ôl, ac y gallwn i gael fy erlyn.

Eich llofnod (mewn inc)

DIWRNOD MIS

/

BLWYDDYN

Nawr dylech roi'r ffurflen hon yn ôl i'r myfyriwr.

Adran 3 I'w llenwi gan y myfyriwr

Dychwelyd eich ffurflen a'ch dogfennau gwreiddiol

3.1 A ydych chi wedi gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth a roddwyd gennych yn Adran 1 yn gywir?

Nac ydw – Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau a'ch bod wedi llofnodi a dyddio eich datganiad. Ni allwn dderbyn eich ffurflen os bydd unrhyw wybodaeth ar goll.

Ydw

3.2 A yw'r unigolyn sy'n cadarnhau'ch gwybodaeth yn bodloni'r meini prawf derbyniol ar dudalen 1 ac a yw wedi ateb yr holl gwestiynau'n llawn a llofnodi a dyddio ei ddatganiad?

Nac ydi – Gwnewch yn siŵr ei fod wedi ateb yr holl gwestiynau ac wedi llofnodi a dyddio ei ddatganiad. Ni allwn dderbyn eich ffurflen os bydd unrhyw wybodaeth ar goll neu os na fydd yr unigolyn sy'n cadarnhau'ch gwybodaeth yn bodloni'r meini prawf ar dudalen 1.

Ydi

3.3 A ydych chi wedi cynnwys eich tystysgrif geni neu fabwysiadu **wreiddiol**?

Nac ydw – Os bydd eich dogfen ar goll neu os byddwch yn anfon llungopi, ni allwn ei derbyn fel prawf o'ch manylion personol.

Ydw – Rydych yn barod i ddychwelyd eich ffurflen. Dylech ei hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru
Blwch Post 211
Cyffordd Llandudno
LL30 9FU**

Cofiwch dalu'r pris postio cywir a gofyn am brawf postio.

Enghreifftiau o gydlofnodion derbyniol

Sylwer, rhaid i'r unigolyn sy'n cydlofnodi'ch ffurflen:

- fod yn unigolyn sydd ag enw da yn y gymuned,
- fod wedi'ch adnabod chi am fwy na 2 flynedd,
- heb fod yn perthyn i chi (trwy enedigaeth neu briodas), heb fod mewn perthynas â chi nac yn byw yn eich cyfeiriad,
- bod yn byw yn y DU, ac
- yn dal pasbort y DU dilys.

Sylwer, oni bai y nodir, rhaid cael cydlofnod gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio, ac nad yw wedi ymddeol.

Dyma enghreifftiau cyffredin o bobl y gallech chi fod yn eu hadnabod ac sy'n gallu cydlofnodi'ch ffurflen:

- Cyfrifydd
- Swyddog Banc neu Gymdeithas Adeiladu
- Cadeirydd/Cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig
- Gwas sifil (parhaol)
- Deintydd
- Cyfarwyddwr/Rheolwr cwmni sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW
- Peiriannydd (sy'n meddu ar gymhwyster proffesiynol)
- Swyddog gwasanaeth tân
- Rheolwr/swyddog personél cwmni cyfyngedig
- Meddyg (rhaid ei fod yn adnabod yr ymgeisydd yn bersonol)
- Gweinidog yr efengyl cydnabyddedig
- Nyrs (RGN ac RMN neu ddeiliad BA, BSc neu Ddiploma Nyrsio)
- Swyddog y Lluoedd Arfog (sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd neu sydd wedi ymddeol)
- Optegydd
- Fferyllydd
- Heddwast
- Swyddog y Swyddfa Bost
- Llywydd/Ysgrifennydd sefydliad cydnabyddedig
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Cyfreithiwr
- Athro/Darlithydd
- Milfeddyg

Ceir nifer fawr o bobl broffesiynol eraill y gallent lofnodi'ch ffurflen hefyd, er enghraifft:

- Pensaer
- Clerc erthyglog cwmni cyfyngedig
- Bargyfreithiwr
- Fferyllydd
- Ciropodydd
- Ymarferwr Gwyddor Cristnogol
- Cyfarwyddwr/Rheolwr elusen sydd wedi'i chofrestru at ddibenion TAW
- Hyfforddwr Gyrru (wedi'u cymeradwyo)
- Trefnydd Angladdau
- Newyddiadurwr
- Ynad Heddwast
- Swyddog llywodraeth leol
- Aelod Seneddol
- Swyddog Llynges Fasnachol
- Swyddog paragyfreithiol (swyddog paragyfreithiol ardystiedig, swyddog paragyfreithiol cymwys neu aelod cyswllt Sefydliad y Swyddogion Paragyfreithiol)
- Parafeddyg
- Ffotograffydd (proffesiynol)
- Deiliad Trwydded Bersonol (a alwyd yn drwyddedig tŷ tafarn yn unig yn flaenorol)
- Swyddog Carchar/Prawf
- Swyddog Byddin yr Iachawdwriaeth
- Tirfesurydd
- Swyddog undeb llafur
- Trefnydd Teithiau (cymwys)
- Swyddogion gwarant a Phrif Is-swyddogion

Ar ôl darllen yr wybodaeth hon, os nad ydych yn siŵr o hyd a yw'r unigolyn a ddewiswyd gennych i gydlofnodi'ch ffurflen yn bodloni'r meini prawf ar frig y dudalen, ffoniwch ni ar 0300 100 0494.